CIWB

**Tasg 2**

# Eich ardal chi

1. Beth sy yn y pentref yma? Gwnewch restr.

Mae ... yn y pentref.

Mae ... yn y pentref, yn ogystal â ...
There's ... in the village, as well as ...

2. Beth sy ddim yn y pentref yma? Gwnewch restr.

Does dim ... yn y pentref.

Does dim ... na ... yn y pentref.
There's no ... nor ... in the village.

3. Beth sy yn eich ardal chi? Beth sy ddim yn eich ardal chi?
Gwnewch ddwy restr.
Cymharwch eich rhestr chi gyda rhestr eich partner chi.

4. Gyda'ch partner chi, rhestrwch ansoddeiriau i ddisgrifio'r ardal – fel yn Tasg 1 (Cwestiwn 1).
Dwedwch pam rydych chi wedi dewis yr ansoddeiriau yma, e.e.

Tawel.
Dw i'n meddwl bod y dref yn dawel iawn achos does dim byd i wneud yma.
Does dim sinema, does dim siopau da, does dim parc i'r plant.
Does dim canolfan i'r bobl ifanc. Mae'n dawel iawn.

5. Rydych chi'n mynd i baratoi gwybodaeth am eich ardal chi ar gyfer gwefan.
Cynlluniwch y darn:
   - Dwedwch ble mae'r ardal / dref / pentref.
   - Dwedwch beth sy yn yr ardal.
   - Dwedwch beth sy ddim yn yr ardal.
   - Disgrifiwch yr ardal – defnyddiwch ansoddeiriau.
   - Gwnewch fap.
   - Chwiliwch am luniau da.

6. Ysgrifennwch y darn.